148 *Rhoist Dy Ffyddlon Fab*

(Ioan 15:13)

1. Jehofa, Dad annwyl,
   Heb obaith oedd y byd.
   Rhoist obaith, rhoist bridwerth;
   Do, fe'n ceraist ni!
   I Ti yr hoffwn fyw.
   Siaradwn am ein ffydd
   Hyd at bellteroedd byd.
   Ein gorau rown i Ti.

(*CYTGAN*)
Fe roist dy ffyddlon Fab.
Fel côr cawn ganu cân
O foliant a llawenydd
I ddiolch am dy ffyddlon Fab.

2. Dy ffeindrwydd tosturiol
   Sydd yn ein denu ni.
   Dy gwmni a'th enw,
   Caru wnawn hyd byth.
   Dy gariad, perffaith yw;
   Rhoist o'th haelfrydig law
   Dy Fab, er mwyn i bawb
   Sy'n ufudd fyw am byth.

(*Cytgan*)

Diweddglo

Jehofa, Dad annwyl, o'th gariad rhoist dy Fab,
Dy unig-anedig. Diolch am dy ffyddlon Fab.

(Gweler hefyd Ioan 3:16; 1 Ioan 4:9.)

© 2015 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania